



**DANGOSWCH INNI
EI BOD O
BWYS ICHI:**

archwilio effaith gronnol hiliaeth
ar bobl ifanc "hil-ddiffiniedig" yn
system addysg Cymru

**CRYNODEB
GWEITHREDOL**



Nod '**Dangoswch inni ei bod o bwys ichi:** archwilio effaith gronnol hiliaeth ar bobl ifanc hil-ddiffiniedig yn system addysg Cymru' yw rhoi lle blaenllaw i leisiau pobl ifanc yng nghyswllt hiliaeth ym myd addysg a chyflwyno argymhellion o blaid newid yng Nghymru.

“Dw i'n meddwl bod dioddef hiliaeth mewn ysgolion yn waeth rywsut. Oherwydd, o'i phrofi yno, mae hi fel tanlinellu mai dyna sut dylid dy drin di trwy gydol dy fywyd, ti'n deall?”

(Shona, Cyfranogydd Ifanc yn yr Ymchwil)

CYDNABYDDIAETH

Cynghrair Hil Cymru

Menter newydd yw Cynghrair Hiliaeth Cymru (RAW); fe'i sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2018 â'r nod o ddarparu gofod hunangyfeiriedig lle gall sefydliadau ac unigolion Du, Asiaidd ac o grwpiau ethnig eraill sydd wedi'u categoreiddio'n lleiafrifol¹ ddod ynghyd i drafod eu profiadau fel lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, cydrannu gwybodaeth, a datblygiadau syniadau ac atebion newydd i her gynyddol hiliaeth yng Nghymru.

I ddysgu rhagor ewch i:
racealliance.wales



Cyflawnwyd gwaith ymchwil gweithredol gan:

Andrea Mercedes Ibarra Abreu

Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

Emma Begum

Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

Nirushan Sudarsan

Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

Saadia Abubaker

Ymchwilydd Cymheiriaid RAW

Ysgrifennwyd gan:

Leila Usmani

Gweithwraig Ddatblygiad RAW / Cyd-Awdur
(Crynodeb Gweithredol)

Rocio Cifuentes

Llywgor RAW / Cyd-Awdur
(Crynodeb Gweithredol)

Hoffem ddiolch i'r bobl 'hil-ddiffiniedig' ('racialised people') sy'n byw yng Nghymru, a gymerodd yr amser i gyfrannu eu syniadau, eu teimladau a'u profiadau. Cyflwynir y papur hwn i'r holl bobl hynny o'n blaenau ni, o'n cwmpas ni ac ar ein holau ni sydd wedi brwydro ac sy'n dal i frwydro yn erbyn hiliaeth. Gan gofio'n arbennig y rhai sydd wedi marw dan ei dwylo. Mae hyn yn ymwneud â phobl go iawn, bywydau go iawn. Ac i'n hynafiaid, a'r cenedlaethau a ddaw, datganwn: mae hyn i chi.

¹Defnyddiwn y term 'hil-ddiffiniedig' ('racialised') nid fel modd o'n diffinio ein hunain na'n cymunedau ni, eithr fel categori cymdeithasol-wleidyddol sydd wedi cael ei lunio gan systemau Gwyn a'r gymdeithas Wen i gyfeirio at bobl ar sail gwahaniaethau a nodweddion unigol megis lliw croen, math o wallt, enw, gwisg, crefydd, cenedligrwydd, statws fel ymfudwyr neu drefnadaeth ethnig, er mwyn cyfiawnhau gormes yn ein herbyn. Rydym yn weithredol hil-ddiffiniedig. Gellir gweld diffiniad llawn yn yr adroddiad ymchwil llawn.

TROSOLWG

Rhyw 12% o blant ysgol Cymru sy'n hanu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac mae tystiolaeth gynyddol i faint ac amlder y bwllian hilyddol a ddirodder ganddynt mewn ysgolion a cholegau yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol.

Er nad yw'r broblem yn un newydd, mae atgyfodiad mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020 ac effaith pandemig Cofid-19 wedi denu sylw newydd ati, ac felly hefyd adroddiad 'Cynefin' a gyhoeddwyd gan yr Athro Charlotte Williams ynghylch cynyddu cynrychiolaeth amrywiaeth hiliol yng nghwricwlwm newydd yr ysgolion yng Nghymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r ymchwil hon gan Gynghrair Hiliaeth Cymru yn darparu tystiolaeth gynhwysfawr empirig newydd i brofiadau pobl ifanc hil-ddiffiniedig² o'r ffenomen, gan ganolbwyntio ar eu profiadau newidiol o hyn ar wahanol adegau o'u taith addysgol. Mae'n hanfodol nodi mai gwaith ymchwil a arweinir gan gymheiriaid sydd yma, wedi'i lunio, ei gynllunio a'i gyflawni'n uniongyrchol gan bobl ifanc o gefndiroedd hil-ddiffiniedig, gyda chefnogaeth staff a thîm gwirfoddolwyr RAW. Mae hyn yn cydfynd yn llwyr ag ethos a nod RAW, sef bodoli fel rhwydwaith hunan-gyfeiriedig a chydweithredol o unigolion a sefydliadau sy'n ymdrechu i gynyddu cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Ein nod yw adleoli a chydrannu grym a datgoloneiddio dulliau gweithredol sefydliadol gorflinedig.

Dynesiad methodolegol unigryw yw hwn; mae'n datgelu canfyddion dwfnddysg sydd weithiau'n aflonyddol. Dengys y gwaith ymchwil sut mae profiadau lluosol ac aml o hiliaeth o blentyndod cynnar ymlaen, yn yr ysgol gynradd ymlaen i lefel Addysg Uwch, yn gadael effaith barhaol, ac yn aml trawmatig ar bobl ifanc, gan amharu ar eu hiechyd meddwl hirdymor, eu hunaniaeth a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Dyma apêl ddiamwys felly. Gwrandewch arnom, cefnogwch ni, cynrychiolwch ni a gwnewch rywbeth ynghylch ein pryderon a'r hyn yr ydym yn mynd trwyddo – Dangoswch inni fod hyn o bwys i chi.

² Rydym wedi symud ymaith o ddefnyddio'r term 'BAME' gan nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gyfforddus wrth ei ddefnyddio. Rydym wedi dewis y term "hil-ddiffiniedig" ('racialised') yn ei le, gan gydnabod y broses o ddiffinio pobl yn ôl eu hil a ddefnyddir gan y mwyafrif Gwyn ymddangosiadol sydd yn y byd.

METHODOLEG

Mae'r papur ymchwil hwn yn rhan o raglen waith 2 flynedd Cynghrair Hiliaeth Cymru sydd wedi derbyn cyllid oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree.

Gyda chefnogaeth Gweithwyr Datblygu Cynghrair Hiliaeth Cymru rhwng Gorffennaf a Medi 2020, cynhaliodd pedwar ymchwilydd cymheiriaid gwirfoddol ymchwil i brofiadau pobl ifanc hil-ddiffiniedig mewn gwahanol leoliadau ym myd addysg yng Nghymru. Diben y gwaith oedd archwilio effaith gronol hiliaeth mewn addysg ar bobl ifanc hil-ddiffiniedig yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y cwestiynau ymchwil ar brofiadau pobl ifanc o hiliaeth uniongyrchol mewn ysgolion – beth roedd wedi digwydd iddynt, sut deliwyd â hyn; eu profiadau o hiliaeth anuniongyrchol gan gynnwys cynrychiolaeth yn y cwricwlwm, microymosodiadau ac amrywiaeth ymhlith y staff dysgu; a, gan edrych ymlaen tua'r dyfodol, pa bethau yr oeddent am eu gweld yn newid. Creodd pobl ifanc linell amser o'u taith addysgol a'i defnyddio fel ysgogiad gweledol mewn cyfweiliadau.

Cymerodd 20 o bobl ifanc ran fel cyfranogion ymchwil. Roeddent yn grŵp ethnig amrywiol yn cynnwys pobl ifanc o dras Arabaidd, Asiaidd, Du, Ewropeaidd a Lladin-Americanaidd, o wahanol gefndiroedd crefyddol gan gynnwys rhai Cristnogol, Mwslimaidd a heb grefydd, yn byw mewn gwahanol leoedd gan gynnwys Gogledd a Gorllewin Cymru, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

CANFYDDION

Fel yr esboniodd y bobl ifanc, gall hiliaeth fod yn uniongyrchol (agored); yn anuniongyrchol (cuddiedig); gall gael ei harddangos trwy ficroymosodiadau a'i dioddef ar lefel sefydliadau trwy gyfrwng polisïau a gweithdrefnau a all effeithio'n negyddol ar gymunedau hil-ddiffiniedig o'u cymharu â'u cymheiriaid gwyn.

Mynegodd mwyafrif o'r bobl ifanc bryderon ynghylch y cynnydd mewn mynegiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o hiliaeth, yn enwedig wrth iddynt symud ymlaen drwy eu teithiau addysgol.

Un neges a glywsom dro ar ôl tro mewn perthynas â hiliaeth gan bobl ifanc oedd bod hiliaeth yn rhywbeth a deimlid ond nas gwelid bob amser ganddynt. Fel y datganodd y bobl ifanc hyn, mae cydnabod y mynegiadau awgrymedig, ac weithiau anweledig o hiliaeth mewn addysg yn bwynt dechrau hanfodol.

"Dw i am bwysleisio'r ffaith bod pobl yn meddwl bod hiliaeth yn mynd yn llai a llai aml, ond baswn i'n dweud ei bod yn cael ei mynegi heddiw mewn ffyrdd gwahanol ... mae'n wir bwysig y dyddiau'ma inni godi ymwybyddiaeth o ficroymosodiadau [oherwydd] 'dyw pobl ddim yn mentro bihafio'n hilyddol yn eich wyneb."

(Zahra, Cyfranogydd Ifanc yn yr Ymchwil)

Profiadau trwy'r daith addysgol

Mewn ysgolion cynradd roedd hiliaeth yn llai cyffredin na mewn ysgolion uwchradd. Ymhlith y bobl ifanc a rannodd eu profiadau o hiliaeth yn yr ysgol gynradd, roedd yr hiliaeth yn dod bob amser yn uniongyrchol oddi wrth ddisgyblion eraill, gan gynnwys galw enwau neu gael eu gadael allan o bethau. Mewn ysgolion cynradd lle nad oedd amrywiaeth hiliol, rhannodd llawer o bobl ifanc eu canfyddiadau bod y staff dysgu mewn cyflwr amharod ac yn brin o ddealltwriaeth wrth ddelio ag amrywiaeth. Er bod plant yn dioddef hiliaeth yn llai aml yn yr ysgol gynradd, gall cael eich herian a'ch pryfocio a'ch galw allan am fod yn 'wahanol' adael effeithiau trawmatig yn eich plentyndod cynnar, ar oedran pan mae llawer yn hiraethu am fod yn tebycach i'w cymheiriaid gwyn.

Yng nghyd-destun ysgolion uwchradd, ymddengys bod hiliaeth yn cael ei mynegi mewn ffordd fwy cymhleth o lawer. Yn debyg i'r ysgolion cynradd, roedd llawer o bobl ifanc yn dioddef galw enwau ar sail eu nodweddion hiliol a chrefyddol. Ond, fel yr esboniai'r bobl ifanc, y gwahaniaeth yma – yn wahanol i'w profiad yn yr ysgol gynradd – oedd bod y galw enwau'n weithred fwy bwriadol ac weithiau'n faleisus, gan gynnwys cyfeirio at eu tras hiliol trwy ddefnyddio'r gair P- a'r gair N-. Esboniodd llawer ba mor anodd oedd hi i ddelio â'r hyn yr honnid nad oedd ond yn 'hwyl a direidi', ond a deimlai'n aml yn union fel hiliaeth. Adroddodd pob person ifanc Mwslimaidd am gael profiad o alw enwau

Islamoffobig yn ystod ei amser yn yr ysgol uwchradd. Ar ben hyn, adroddodd merched Mwslimaidd ifanc am eu cymheiriaid yn tynnu eu hijabau (pensgarffiau) yn rheolaidd o'u pennau.

Yn ffodus, wrth i'r bobl ifanc symud ymlaen at addysg bellach yn y chweched dosbarth neu'r coleg, adroddodd llawer eu bod wedi dioddef llai o hiliaeth. Roedd achosion o hiliaeth uniongyrchol o hyd i rai, ond y tu allan i'w canolfan addysg y digwyddai'r rhain gan amlaf, er enghraifft pan oeddent yn tethio ar gludiant cyhoeddus i/o'r coleg neu'r chweched dosbarth. Serch hynny, parhaent i dioddef ffurfiau anuniongyrchol ar hiliaeth, a hynny'n arbennig gan ddarlithwyr ac yn y modd y traddodid gwersi. Clywsom enghreifftiau o gamliwio cymunedau hil-ddiffiniedig mewn gwersi, ac adroddwyd wrthym fod rhai darlithwyr yn fwy eofn eu datganiadau a'u safbwyntiau a ymylai weithiau ar hiliaeth.

Mae gennym lai i'w ddweud yn yr ymchwil hon am brofiadau mewn Addysg Uwch, gan fod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym newydd gychwyn ar eu gyrfa brifysgol. Roedd llawer o bobl ifanc yn mwynhau'r 'amrywiaeth' gymharol sydd ar gael yn y brifysgol, ac sydd wedi helpu i hyrwyddo eu hymdeimlad o berthyn. Ond clywsom hefyd fod llawer o bobl ifanc wedi mynd trwy brosesau cofrestru cymhleth a'u gadawai'n ansicr ai'r system oedd yn gyfrifol am wneud pethau'n anodd iddynt, ynteu hiliaeth anuniongyrchol ar ran staff y brifysgol. Ar ben hyn, er bod prifysgolion yn honni bod ganddynt bolisi dim goddefgarwch ynghylch hiliaeth, gall fod yn anodd i bobl ifanc wybod at bwy dylent fynd i siarad am hiliaeth.

Ymatebion Athrawon

Teimlad y mwyafrif llethol ohonom oedd bod ymatebion athrawon ac ysgolion i ddigwyddiadau hilyddol yn annigonol. Gall fod yn anodd i addysgwyr adnabod hiliaeth mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig pan mae prinder amrywiaeth hiliol ymhlith yr addysgwyr yn yr ysgolion hynny. Datganodd pobl ifanc fod llawer o athrawon i bob golwg yn *"ddiamcan' ynghylch hiliaeth, a'u bod yn ei gweld yn bwnc dreiniog i'w drafod, oherwydd "Dyn nhw ddim yn deall hiliaeth yn iawn eu hunain. Maen nhw'n eithaf hen-ffasiwn, a dyn nhw ddim yn ei hystyried yn or-bwysig"*.

Yn anffodus, ymddengys mewn rhai achosion fod y broblem yn ddyfnach na mater o fod yn ddiamcan; soniodd rhai o'r cyfweledigion am eu profiad o athrawon yn lleisio eu barn negyddol bersonol, heb flewyn ar dafod, am leiafrifoedd, gan ddrysu rhwng gwahanol hunaniaethau pobl ifanc hil-ddiffiniedig, ac mewn rhai achosion eithafol hyd yn oed yn defnyddio gwartheiriau hilyddol.

Pan ymdrafferthai pobl ifanc i adrodd am ddigwyddiadau hilyddol, clywsom dro ar ôl tro nad oedd ysgolion wedi ymateb yn effeithiol. Teimlid yn rhy aml bod cyfrifoldeb rhy fawr o lawer yn cael ei osod ar ysgwyddau targed y fath ymddygiad ymosodol i gyflwyno prawf pendant ohono; teimlai llawer na fyddai neb yn eu credu nac yn eu cymryd o ddifrif, ac nad oedd hi'n werth adrodd amdano felly. Yn achos yr esiamplau prin o ymatebion swyddogol a oedd wedi bod yn effeithiol, adroddodd mwyafrif y cyfranogion fod dynesiad adferiadol wedi gweithio'n well na dynesiad cosbol, gan fod hyn wedi galluogi'r ddwy ochr i ail-greu perthynas fwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Ymhlith y rhai a oedd yn mynychu'r chweched dosbarth roedd drwgdybiaeth barhaus yn nhrefn adrodd eu hysgolion am hiliaeth, gan eu bod eisoes wedi profi diffyg dealltwriaeth a diffyg argyhoeddiad ar ran yr athrawon a oedd wedi delio â chwynion blaenorol. Erbyn hyn roedd y myfyrwyr wedi penderfynu mewnoli unrhyw wrthdaro a datrys pethau drostynt eu hunain.

Cynrychiolaeth

Mae gweld eich hunan yn cael eich cynrychioli ymhlith eich cymheiriaid a'ch addysgwyr ac yn eich gwerslyfrau yn ffactor allweddol bwysig wrth ystyried ymdeimlad pobl ifanc o berthyn ac o'u hunaniaeth yng Nghymru. Gwaetha'r modd nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn teimlo bod y fath gynrychiolaeth yn rhan o'u profiad.

Mewn ysgolion uwchradd, atebodd bron pawb ymhlith y bobl ifanc nad oeddent yn gweld eu hil, eu hethnigrwydd na'u crefydd eu hunain yn cael eu portreadu yn y cwricwlwm. Disgrifiodd y rhan fwyaf ohonynt eu pynciau fel rhywbeth Ewroganlog a oedd yn anwybyddu ac yn *'dileu'* y cyfraniadau a wneir gan gymunedau hil-ddiffiniedig yng ngwledydd Prydain; mae pynciau megis hanes, meddent, yn cyflwyno fersiwn *'wyngalchedig'*, ac *'wedi'i rhamanteiddio'* o hanes y DU.

I'r rhai a welai ryw adlewyrchiad o'u hunaniaeth, darlun negyddol oedd hyn gan amlaf, a soniodd llawer ohonynt am enghreifftiau o stereoteipiau negyddol ynghylch hil yn cael eu cadarnhau. Mewn pynciau megis cymdeithaseg, disgrifiodd pobl ifanc eu haniddigrwydd ym mhresenoldeb cynrychioladau cyffredinol o bobl Ddu.

Gwrth-hiliaeth

Cafodd ein gwaith ymchwil hyd hefyd i gyfraniad yr elusennau yng Nghymru sy'n cynnal gweithdai a sesiynau addysgol ar gyfer pobl ifanc a staff dysgu, megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru (SRTRC) a Thîm Cynorthwyo Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST Cymru) yng nghyswllt gwrth-hiliaeth, Islamoffobia ac amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd y sesiynau hyn yn dal yn fyw yng nghof y bobl ifanc am fod eu dynesiad at hiliaeth mor wahanol i'r hyn a welid yn y system addysg. Byddai pobl ifanc yn croesawu rhagor o sesiynau fel hyn fel ffordd o chwalu'r stereoteipiau a gysylltir â gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol.

Diffyg amrywiaeth yn y gweithlu

Ar ben y diffyg cynrychiolaeth a welir yn y cwricwlwm, dwysér y broblem gan ddiffyg addysgwyr o gefndiroedd hil-ddiffiniedig yng Nghymru, rhywbeth y soniodd pobl ifanc amdano ar draws pob lefel addysg. Gadewai hyn lawer o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn *'gamddealledig'* ac yn methu â mentro sôn am ddigwyddiadau hilyddol wrth y staff dysgu am fod hyn yn gymaint o *'bwnc dreiniog'*. Roedd rhai pobl ifanc yn ystyried holl ymdrechion yr ysgolion i fod yn gynhwysol ac yn amrywiol, ac i hybu cydraddoldeb, yn rhywbeth arwynebol, anghyson a gwagsymbolaidd.

Clywsom hefyd am achosion o staff dysgu'n defnyddio esiamplau ac ieithwedd anystyriol wrth archwilio testunau, wrth esbonio cysylltiadau'r gair 'du' er enghraifft. Mae angen i addysgwyr fod yn sensitif, yn feddylgar

ac yn wybodus wrth drafod materion nad oes ganddynt brofiad na dealltwriaeth eang ohonynt.

Effaith hirdymor hiliaeth

Nid digwyddiad un-tro mo hiliaeth. Nid yw'n rhywbeth sy'n dod i ben ar ôl inni orffen ein haddysg yng Nghymru. Mae hiliaeth a'i heffeithiau'n rhywbeth sy'n aros gyda'r bobl ifanc hyn. Gwelir un o effeithiau allweddol hiliaeth yn y tymor hir, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar iechyd meddwl pobl ifanc, ac yn enwedig eu hyder a'u hunanbarch. Disgrifiodd llawer o bobl ifanc a oedd wedi dioddef hiliaeth uniongyrchol ar hyd eu taith addysgol sut roedd digwyddiadau hilyddol wedi cael effaith hirdymor ar eu ffordd o'u gweld eu hunain mewn perthynas ag eraill:

"Baswn i'n dweud ei bod hi wedi niweidio fy hunan-barch. Roedd hi'n gwneud i fi deimlo weithiau na faswn i byth gystal â rhai pobl oherwydd y ffordd rwy'n edrych, neu liw fy nghroen. Mae'n bethau fel'n... mae'n gwneud i fi deimlo fy mod i ddim mor werthfawr na mor deilwng â phobl eraill."

(Sophie, Cyfrannog Ifanc yn y Gwaith Ymchwil)

CASGLIADAU

Gyda rhyw fesur o ymostyngiad i'r drefn ac anocheledd yr wynebai llawer o bobl ifanc y tebygrwydd o orfod wynebu hiliaeth gydol eu hoes, gan fewnoli eu teimladau. Mae'n hanfodol bwysig inni gydnabod y difrod emosiynol a meddylol y mae profi hiliaeth yn ei adael ar bobl ifanc mewn addysg. Weithiau roedd hyd yn oed galw'r profiadau hyn i'r cof yn y gobaith o hyrwyddo newid er gwell i genedlaethau'r dyfodol yn drawmatig, blinderus ac emosiynol. Ni ddylid gadael i ysgwyddau'r bobl ifanc hyn gario'r holl gyfrifoldeb am dystio i'w profiadau a'u hesbonio'n ddibaid; ond y ffaith drist yw, o ganlyniad i ddiffyg prosesau effeithiol mewn sefydliadau addysgol yng Nghymru, bod profiadau o hiliaeth yn aros fel rheol heb eu datrys.

"Mae hyd yn oed siarad amdano'n fy ngwneud i damaid bach yn emosiynol [ac] rwy'n gwybod mai nid fi sydd ar fai ... Rwy jyst yn wahanol. A dweud y gwir dw i ddim wedi dysgu sut i ddod dros hiliaeth ac Islamoffobia. Y cwbl rwy' wedi llwyddo i'w wneud yw dysgu sut i'w gadw y tu mewn i fi, peidio ei droi e'n broblem."

(Wafaa, Cyfrannog Ifanc yn y Gwaith Ymchwil)

Mae hiliaeth yn effeithio yn y tymor hir ar hunaniaeth pobl ifanc hefyd, a sut maent yn eu gweld eu hunain mewn perthynas ag eraill. Mae pobl ifanc yn cael eu cyflyru gan eu haddysg yn yr ysgol i feddwl mewn modd penodol, ac mae angen iddynt fynd ati'n ymwybodol i herio ffyrdd o feddwl sydd wedi gwreiddio mewn tra-arglwyddiaeth wen, gan y gall niweidio eu hymdeimlad o'r hunan.

Mae profiadau blaenorol o hiliaeth yn amharu ar uchelgeisiau gyrfaol hirdymor rhai myfyrwyr, gan eu harwain i osgoi gyrfaoedd penodol lle maent yn rhagweld cysylltiad gormodol â hiliaeth. Roedd hefyd yn eu plith ryw ymdeimlad trist o ddisgwyl i hiliaeth ddigwydd, a chydabyddiaeth y bydd angen iddynt *'weithio deirgwaith yn galetach'* er mwyn cystadlu â'u cymheiriaid gwyn a llwyddo.

Mae profiadau a storïau'r bobl ifanc hyn yn arddangos natur gymhleth yr hiliaeth y maent wedi'i phrofi a'i dioddef yn system addysg Cymru. Mae storïau a glywsom am brofiadau o'r ysgol gynradd ymlaen i lefel y brifysgol yn tystio i effaith barhaus hiliaeth ar bobl ifanc hil-ddiffiniedig.

Ar y gwaethaf, mae pobl ifanc yn dioddef hiliaeth uniongyrchol wedi'i chymysgu â microymosodiadau, a hynny i'r fath raddau nes iddynt gwestiynu dilysrwydd eu profiadau eu hunain lle mae cymunedau hil-ddiffiniedig yn cael eu cyflwyno dro ar ôl tro fel rhywbeth sy'n llai na/yn wahanol i bobl wen. Ar y gorau, mae pobl ifanc yn wynebu microymosodiadau a fynegir fel mân-bryfocio hilyddol ac yn derbyn hiliaeth ddiraro fel rhan o fywyd bob dydd.

Ond er gwaethaf y pryderon difrifol hyn, mynegodd pobl ifanc gryn obaith ac optimistiaeth hefyd ynghylch newidiadau mewn cynrychiolaeth yn system addysg Cymru. Roedd yna obaith yn arbennig oherwydd protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020, y newidiadau arfaethedig yng nghwricwlwm ysgolion Cymru, a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

Ni waeth am yr amryw brofiadau a gofnodwyd, mae gwahanol ffurfiau ar hiliaeth yn dod i'r golwg ar draws sefydliadau addysgol Cymru. Ni waeth ymhle, sut, nac ym mha ffurf y bo'n ymddangos, mae hiliaeth yn dal i heidio yn y system addysg yng Nghymru. Rhaid inni wneud yn well na hyn.

ARGYMHELLION

Ar sail lleisiau a phrofiadau'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yma, rydym yn cyflwyno'r cynigion a'r argymhellion canlynol.

Trowch yn wrth-hiliol

Mae'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy am weld athrawon yn troi'n fwy rhagweithiol wrth eu haddysgu eu hunain ac addysgu eraill am wahanol ffurfiau ar hiliaeth. Mae angen i *ddiwylliant* rhai sefydliadau addysgol newid, gan fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol wrth-hiliol.

Dylai Ysgolion, Llywodraeth Cymru a Rhanddeiliaid Addysg:

1. Ddatblygu eu cynlluniau gweithredu dros gydraddoldeb hiliol gyda golwg ar symud at fod yn wrth-hiliol, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn o fewn fframwaith Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a dilyn canllawiau Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Dylai'r cynlluniau hyn egluro pa gamau y bydd yr ysgol yn eu cymryd, a phwy fydd yn eu cymryd, a dylid eu datblygu mewn ymgynghoriad â phobl ifanc hil-ddiffiniedig, rhieni, teuluoedd a staff yr ysgol.
2. Ymgysylltu'n rhagweithiol ag ymarferwyr gwrth-hiliaeth y trydydd sector, megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru ac EYST Cymru, er mwyn meithrin dealltwriaeth y staff o hiliaeth fel problem sy'n esblygu, yn y cyd-destun addysgol yn enwedig, a dysgu sut gallant fynd i'r afael â hiliaeth yn bragmatig ar y lefelau sefydliadol, anuniongyrchol ac uniongyrchol.
3. Ymgysylltu'n helaethach â theuluoedd gan ymrwymo i fabwysiadu dynesiad at fynd i'r afael â hiliaeth fydd yn pontio'r cenedlaethau. Dylai ysgolion chwarae rhan fwy gweithredol mewn rhaglenni Cydlyniant Cymunedol gyda golwg ar gyflawni hyn.
4. Mabwysiadu dynesiad rhyngblethol at herio hiliaeth dan ei holl ffurfiau gwahanol, gan gydnabod y rhyngblethedd rhwng hil a rhywedd, dosbarth, rhywioldeb, crefydd ac anabledd. Dylai hyfforddiant athrawon adlewyrchu'r fath ddull gweithredu rhyngblethol.

Cynrychiolwch Ni

Mae'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy am weld mwy o addysgwyr hil-ddiffiniedig ar bob lefel yng Nghymru. Maent am eu gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn yr hyn y maent yn ei ddysgu yn ystod eu haddysg.

Argymhellwn felly y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg:

5. Ddarparu adnoddau digonol fel y gellir rhoi argymhellion adroddiad Cynefin Yr Athro Charlotte Williams ar waith yn amserol gyda golwg ar greu cwricwlwm cynrychiadol fydd yn adlewyrchu cymunedau hil-ddiffiniedig.
6. Atgyfnerthu ymdrechion i ysbrydoli, recriwtio a chynorthwyo addysgwyr amrywiol eu hil i symud ymlaen mewn ysgolion yng Nghymru³, gan fanteisio hyd yr eithaf ar y darpariaethau o blaid gweithredu cadarnhaol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Gwellwch y mecanweithiau adrodd

Mae'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy am weld systemau adrodd am ddigwyddiadau hilyddol mewn ysgolion fydd yn hygyrch ac yn fwy gwydn. Maent yn awyddus i addysgwyr nid yn unig eu clywed ond gwranddo arnynt yn astud a gweithredu wedyn ynghylch eu pryderon.

Argymhellwn felly y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Rhanddeiliaid Addysg:

7. Werthuso, ynghyd â phobl ifanc, effeithioldeb y polisiau a gweithdrefnau presennol mewn perthynas â chofnodi digwyddiadau hilyddol ac adrodd amdanynt, gan sicrhau bod y data cyfredol ynghylch digwyddiadau hilyddol a ddioddefir mewn addysg ar gael i'r cyhoedd.
8. Sefydlu gofynion sylfaenol gwydn i sefydliadau addysgol yng nghyswllt polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â chofnodi digwyddiadau hilyddol ac adrodd amdanynt, gan gynnwys sicrhau bod y polisiau ar gael yn hygyrch i bobl ifanc a'u teuluoedd, a hynny yn yr ieithoedd a ddefnyddir gan fyfyrwyr ym myd addysg.
9. Adolygu'r polisiau cyfredol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau bod myfyrwyr yn cael mynegi eu hiaith, eu diwylliant a'u crefydd yn ddirwysr, yn unol ag Erthygl 30 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

³ Fel yr argymhellir ym Manifesto Cyngorair Hil Cymru (2020) dros Gymru Wrth-Hiliol, O'r Rhethreg i'r Realiti. www.racealliance.wales/research/

Gwnewch y Cae Chwarae'n Wastad

Siaradodd pobl ifanc am ddiffyg cae chwarae gwastad, a hynny'n raddol oherwydd lefelau anghyfartal gwybodaeth ymhlith rhieni, ac yn rhannol oherwydd rhagfarn ymhlith athrawon, sy'n arwain at lefelau cyrhaeddiad anghyfartal ymhlith pobl ifanc hil-ddiffiniedig.

Argymhellwn felly y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Rhanddeiliaid Addysg:

10. Roi mesurau ar waith i wrthweithio rhagfarn, gan anonymeiddio dulliau o asesu gwaith cwrs ac arholiadau myfyrwyr.
11. Darparu gwybodaeth dryloyw a hygyrch ar gyfer pobl ifanc, rhieni a gwarcheidwaid ynghylch cael mynediad at addysg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar geiswyr lloches sydd newydd gyrraedd Cymru.

Cydnabyddwch y Trawma

Disgrifiwyd effaith drawmatig barhaus yr hiliaeth a ddiodefir ym myd addysg gan y bobl ifanc y buom yn siarad â hwy. Mae'r hiliaeth y mae rhywun yn ei hwynebu yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol yn gallu gadael effeithiau niweidiol hirdymor, mewn perthynas er enghraifft ag iechyd corff a meddwl, a chyflogaeth. Nid yw'r bobl hyn am weld eu plant yn dioddef yr un peth yn y dyfodol.

Argymhellwn felly y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru:

12. Gydabod hiliaeth fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP/ACE), gan sicrhau bod pobl ifanc hil-ddiffiniedig yn cael mynediad at gymorth diwylliannol sensitif priodol, megis gwasanaeth cwnsela. I wireddu hyn dylai Llywodraeth Cymru a Rhanddeiliaid Addysg gynnig cyfleoedd dysgu i ymarferwyr gyda golwg ar atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng hiliaeth a PNP, a'u hysbysu am y cymorth sydd ar gael i'r fath blant a phobl ifanc.
13. Annog Llywodraeth Cymru i weithredu argymhelliad Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru y dylid sefydlu neu gomisiynu ymchwiliad i hiliaeth mewn ysgolion i graffu a datgelu maint a rhychwant yr hiliaeth drawmatig a wynebir gan blant a phobl ifanc mewn addysg yng Nghymru. Dylai'r ymchwiliad hwn gael ei gyllido'n ddigonol a'i arwain gan gorff annibynnol sydd wedi'i leoli yng Nghymru, a chanddo brofiad penodol o hiliaeth a byd yr ysgolion.

"Mae angen maint anferth o hyfforddiant arnon ni. Mae angen i sefydliadau megis RAW dderbyn yr adnoddau sydd eu hangen i hyfforddi pobl fel y gallan nhw fod yn fwy ymwybodol o realiti. [Dylid] rhoi i bobl y cymorth sydd angen arnyn nhw i'w helpu eu hunain. Mae angen i lywodraethau gymell pobl i fynd ati a gweithredu. Rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi yn y sefydliadau hyn, elusennau, i roi i bobl yr offer i hyfforddi pobl. Rhaid inni gael hyn i gyd cyn symud ymlaen at y cam nesaf hyd yn oed. Chi'n methu codi tŷ ar dywod. Chi'n methu codi tŷ ar ddŵr. Mae angen sylfeini cadarn amoch chi ar gyfer y pethau sylfaenol."

(Joseph, Cyfrannog Ifanc yn y Gwaith Ymchwil)

I gael copi o'r adroddiad llawn, ewch i:
www.racealliance.wales/research
 neu ebostiwch:
info@racealliance.wales

Cynghrair Hil Cymru

Ebrill 2021



CYNGHRAIR HIL CYMRU

www.racealliance.wales



info@racealliance.wales



[RaceAllianceWales](https://www.facebook.com/RaceAllianceWales)



[WalesRace](https://twitter.com/WalesRace)